**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD MERCHER, 30 MEDI 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, A.Evans, A.Jarrett, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, M.Roberts, H.Jones, C.Furlow-Harris, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cabinet:

- 5 Chwefror 2020
- 12 Chwefror 2020
- 19 Chwefror 2020
- 5 Mawrth 2020
- 21 Mai 2020
- 25 Mehefin 2020
- 30 Gorffennaf 2020
- 2 Medi 2020

3. **CYNLLUN CORFFORAETHOL 2020-2024 - ADRODDIAD BLYNYDDOL**

**Penderfyniadau:**

1. Penderfynwyd argymell y dogfennau canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

    - Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol Drafft 2019-22 (adroddiad cynnydd llawn)
    - Adroddiad Blynyddol Cynllun Corfforaethol Drafft 2019-22 (adroddiad cryno)
    - Dangosyddion Perfformiad Allweddol Cynllun Corfforaethol 2019-20

2. Argymhellir i'r Cyngor na ddylid gwneud unrhyw newidiadau i amcanion lles y Cyngor ar hyn o bryd.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Arweinydd y Cyngor i wneud y fath newidiadau ag y mae eu hangen i'r Adroddiad Blynyddol cyn ei gyhoeddi, ar yr amod nad yw'r fath newidiadau'n newid cynnwys y ddogfen a ystyrir gan y cyngor yn sylweddol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **POLISI SYLWADAU, CANMOLIAETHAU A CHWYNION CORFFORAETHOL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r Polisi Sylwadau Corfforaethol, Canmoliaeth a Chwynion diwygiedig fel y'i hatodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau bod gan y cyngor ddull cyson o ymdrin â sylwadau, canmoliaeth a chwynion ar draws y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 5. NEWIDIADAU I GYNRYCHIOLAETH AELODAU

**Penderfyniad:**

Penodi'r Cynghorydd S Pursey i lenwi'r swydd wag yn Fforwm Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Diweddaru trefniadau aelodaeth y cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith. Cytunodd Cadeirydd y pwyllgor craffu i'r camau gweithredu hyn. Ni fyddai unrhyw gyfle i gwestiynu'r penderfyniad hwn.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON 2020

Holodd yr Aelodau ynghylch nifer y cwynion a oedd yn ymwneud â 'thrin cwynion', ac esboniodd swyddogion fod pump ohonynt.

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

## 7. GWASANAETH CASGLU TECSTILAU YMYL Y FFORDD

Pwysleisiodd yr Aelodau fod tipio anghyfreithlon bob amser yn annerbyniol ac nad yw byth yn cael ei wneud yn anfwriadol.

Derbyniodd yr Aelodau argymhelliad cyfarfod cynharach y Pwyllgor Craffu, sef ymestyn y cyfnod rhybudd i drigolion lleol o un mis i ddau fis, fel y nodir mewn **print trwm** ym mhenderfyniad 1 isod.

**Penderfyniadau:**

1. Bod y cyngor yn peidio â chasglu tecstilau wrth ymyl y ffordd ac yn newid ei ddull marchnata'n unol â hynny, **gan roi dau fis o rybudd i'r cyhoedd**.

2. Bod swyddogion yn gweithio gydag unrhyw fusnesau lleol sy'n barod i dderbyn a/neu dalu am decstilau, i helpu i hyrwyddo'r nifer cynyddol o ddigwyddiadau cymunedol a'r defnydd o gyfleusterau 'gollwng' fel y rheini a ddarperir yng nghanolfannau ailgylchu gwastraff cartref y cyngor.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Penderfynu ar y ffordd ymlaen o ran casglu tecstilau wrth ymyl y ffordd.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**